## Cynnwys


| | Rhif tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr | 2 |
| Rheoli Cymhorthdal y DU/Cymorth Gwladwriaethol | 3 |
| Pwy sy'n gymwys? | 4 |
| Sut mae gwneud cais am Grant Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr? | 5 |
| Sut bydd y Grant yn cael ei dalu? | 6 |
| Sut byddaf yn cael gwybod bod y grant wedi'i dalu? | 6 |
| Y broses apêl | 6 |
| Y broses gwyno | 7 |
| Cysylltiadau | 7 |
| Hysbysiad Preifatrwydd | 7 |
| Atodiad A – Telerau ac Amodau | 9 |
| Atodiad B – Cwmnïau mewn Trafferthion | 14 |
| Atodlen 1 – Digwyddiadau Hysbysadwy | 15 |

# Cyflwyniad

**Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cyhoeddi grant i helpu busnesau pysgota sy'n berchen ar gychod er mwyn cefnogi hyfywedd sector bwyd môr Cymru y tu hwnt i effeithiau uniongyrchol COVID-19 ac ymadael â'r UE.**

Ers 1 Ionawr 2021, mae busnesau bwyd môr yng Nghymru wedi dioddef tarfu difrifol ar eu masnach o ganlyniad i ymadael â'r UE a chasgliad Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE (TCA). Gwaethygwyd pob un ohonynt yn yr hyn a oedd eisoes yn sefyllfa dyngedfennol i sector bwyd môr Cymru yn dilyn cau marchnadoedd lletygarwch ym mis Rhagfyr 2020 oherwydd COVD-19.

Gan gydnabod yr effaith economaidd y mae'r sector yn ei hwynebu, mae Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr wedi'i gynllunio i gefnogi busnesau pysgota o Gymru sy'n berchen llongau gyda'r costau sefydlog cysylltiedig â bod yn berchen ar gwch pysgota. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn grant o hyd at £10,000 sy'n cwmpasu cyfnod o 3 mis ac sy'n seiliedig ar faint y llong.

Mae Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr ar gyfer busnesau pysgota adnabyddadwy gyda llongau trwyddedig o Gymru, i gefnogi llongau i barhau i bysgota y tu hwnt i argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 ac effaith ymadael â'r UE. Datblygwyd y cynllun grant i bontio'r bwlch yn y ddarpariaeth gymorth ar gyfer y sector hwn, y tu hwnt i ymyriadau eraill, gan gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Cynllun Cymhorthdal Incwm Hunangyflogaeth a'r Cynllun Cadw Swyddi. Nod y cynllun grant yw helpu i gynnal busnesau pysgota yng Nghymru drwy'r tarfu economaidd a achosir gan argyfwng iechyd cyhoeddus COVID-19 ac ymadael â'r UE. Bydd hyn yn sicrhau y gall llongau barhau i bysgota yn y tymor hir.

# Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adran 58A a 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i sefydlu cynllun i roi grantiau neu fenthyciadau at ddibenion ad-drefnu, datblygu neu hyrwyddo'r diwydiant pysgod môr neu'r rhai sy'n ymwneud â'r diwydiant hwnnw.

Mae'r telerau ac amodau gweithredu'r cynllun hwn wedi'u cynnwys yn *Atodiad A*.

## Pryd fydd y taliadau grant yn cael eu gwneud?

Bydd y cyfnod ymgeisio ar-lein yn agor ar 17 Mawrth 2021. Rhaid cyflwyno ceisiadau cyflawn erbyn 31 Mawrth 2021.

Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau cyflawn yn cael eu hadolygu ac, yn amodol ar yr holl wiriadau angenrheidiol, bydd y taliad Grant yn cael ei wneud. Disgwylir y bydd y broses dalu yn debygol o gymryd oddeutu 10 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

## Beth yw gwerth y grant?

Mae’r pecyn cymorth hwn yn darparu taliad grant untro yn seiliedig ar gyfartaledd costau sefydlog cwch/cychod yng Nghymru. Mae’r cyfartaledd costau sefydlog wedi’i gyfrifo dros gyfnod penodol. Darperir y wybodaeth sy’n sail i’r grant gan Seafish, corff cyhoeddus anadrannol sy’n cynnal arolwg blynyddol o fflyd y DU i gynhyrchu amcangyfrifon o gyfrifon cychod; gyda data glaniadau a chapasiti ar gyfer holl gychod pysgota gweithredol y DU wedi’u ddarparu gan Sefydliad Rheoli Morol y DU. Mae’r grant hwn yn seiliedig ar faint y cwch ac yn daladwy i berchennog pob cwch trwyddedig yng Nghymru ar ôl cyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru sy’n bodloni’r holl feini prawf cymhwysedd perthnasol.

Tabl 1 – cyfartaledd costau sefydlog cwch (wedi’i gyfrifo ar sail y data sydd ar gael a gyflenwyd gan Seafish yn seiliedig ar ddata gwerthiannau’r DU sydd ar gael ac wedi’i gadarnhau ar gyfer 2018):

| Band cwch | Maint cwch | Taliad Grant untro am 3 mis |
|---|---|---|
| 1 | 00 - 5.99m | £2,400 |
| 2 | 06 -7.99m | £3,600 |
| 3 | 08-9.99m | £7,800 |
| 4 | 10-11.99m | £10,000 |
| 5 | 12 – 14.99m | £10,000 |
| 6 | 15-23.99m | £10,000 |
| 7 | 24-40m | £10,000 |

Bydd taliad ar gael ar gyfer pysgotwyr cymwys sy’n cyfateb i gyfartaledd costau sefydlog dau fis, **gydag uchafswm o £10,000 ar gyfer unrhyw un cwch**.

Dim ond cymorth rhannol i'n busnesau pysgodfeydd a dyframaethu yng Nghymru y mae Cronfa Ymateb Bwyd Môr Llywodraeth y DU yn ei roi.

Bydd y Sefydliad Rheoli Morol (MMO) yn cysylltu â busnesau bwyd môr Cymru sy'n gymwys ar gyfer Cronfa Ymateb Bwyd Môr Llywodraeth y DU yn gwahodd cais.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog y busnesau hynny sy'n berchen ar longau yng Nghymru sy'n gymwys ar gyfer cynllun y DU i wneud cais i'r cynllun hwnnw. Gall busnesau

wneud cais am naill ai'r DU neu ar gyfer cynlluniau Cymru, ond nid y ddau. Ni fydd perchnogion llongau yn waeth eu byd o dan y naill gynllun na'r llall.

Bydd darpariaeth adfachu yn cael ei gynnwys yn y llythyr dyfarnu Grant fel bod yn rhaid ad-dalu unrhyw gyllid sy'n gorgyffwrdd.

## Rheoli Cymhorthdal y DU/Cymorth Gwladwriaethol

Gan fod y DU bellach wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) bydd Cynllun Cydnerthedd y Sector Bwyd Môr yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl yn ddomestig ac er bod cymorthdaliadau sy'n ymwneud â physgodfeydd y tu allan i Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE-DU(TCA), mae bwriad y TCA yn cael ei ddilyn.

## Pwy sy'n gymwys?

Cymhwysedd:

- Busnesau pysgota gweithredol gyda chychod wedi'u trwyddedu yng Nghymru hyd at 40 metr o hyd a gwerthiannau cofnodedig o £10,000 neu fwy yn 2019 ac/neu 2020.

Meini prawf:

- Bydd yn ofynnol i feddu ar drwydded gyfredol gan Lywodraeth Cymru.
- Rhaid meddu ar isafswm gwerthiant wedi'i gofnodi gyda Prynwyr a Gwerthwyr Cofrestredig o £10,000 yn 2019 neu 2020.
- Rhaid datgan ar y ffurflen gais nad oeddent mewn anhawster ariannol[1] cyn 31 Rhagfyr 2019.
- Rhaid datgan ar y ffurflen gais eu bwriad i barhau i bysgota am isafswm o chwe mis, oni bai bod amgylchiadau lliniarol a fyddai'n atal hyn.[2]
- Ni ddylent dderbyn cyllid o ffynhonnell arall sy'n cynnwys yr un costau.[3]

Gweler *Atodiad A – Telerau ac Amodau* am ragor o fanylion.

---

[1] Caiff "Anhawster ariannol" ei ddiffinio o fewn Erthygl 2(18) o Erthygl 2(18) o Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn *Atodiad C.*

[2] Os ydych chi'n bwriadu gadael y diwydiant o fewn 6 mis i ddyddiad talu'r grant, nodwch y rhesymau am eich penderfyniad gan roi cymaint o fanylion â phosib. Efallai y bydd gofyn i chi ad-dalu'r cyfan neu ran o'r grant.

*[4] Er enghraifft – Cronfa Ymateb Bwyd Môr Llywodraeth y DU. Cronfa Cadernid Llywodraeth Cymru.*

## Sut mae gwneud cais am Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr?

Mae'r canllaw hwn ar gyfer ymgeiswyr am Pysgodfeydd Cymru – Cynllun Cadernid Bwyd Môr.

Gallwch wneud cais am Pysgodfeydd Cymru - Cynllun Cadernid Bwyd Môr trwy ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Bydd angen cyfrif Porth y Llywodraeth arnoch er mwyn cael mynediad i RPW Ar-lein. Mae'n bosibl bod cyfrif Porth y Llywodraeth gennych eisoes, neu mae'n bosibl y bydd angen i chi greu un. Os ydych chi angen gwybodaeth ynghylch sut i fewngofnodi neu greu cyfrif Porth y Llywodraeth, cyfeiriwch at ganllaw Porth y Llywodraeth sydd ar gael yma: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/rpw-ar-lein-sut-i-gael-mynediad-i-borth-y-llywodraeth.pdf

Mae'r cais ar gael ar yr "Hafan" neu yn adran "Ffurflenni" eich cyfrif. Gellir dod o hyd i ganllaw cam wrth gam ar sut i lenwi'r ffurflen gais yma: https://gov.wales/welsh-fisheries-seafood-resilience-scheme-how-complete-your-application

**Bydd y cynllun yn cau ar gyfer ceisiadau ar 31 Mawrth 2021.**

**Rhaid cyflwyno'r cais am Grant i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad hwn. Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen wedi'r dyddiad hwn, hyd yn oed os gwnaethoch chi ddechrau llenwi'r ffurflen ar neu cyn 31 Mawrth 2021.**

**Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan na fyddant yn gwneud cais am y gymorth grant cyfatebol ar gyfer yr un cyfnod o gronfeydd eraill megis Cronfa Ymateb Bwyd Môr Llywodraeth y DU.**

**Os oes gan y cwch rydych yn hawlio ar ei gyfer nifer o berchnogion, dim ond un cais am bob cwch a dderbynnir.**[4]

**Os ydych chi'n berchen ar nifer o gychod, bydd angen i chi gwblhau cais unigol ar gyfer pob cwch.**

Mae canllaw llawn ynghylch sut i gofrestru ar gyfer RPW Ar-lein ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: https://llyw.cymru/rpw-ar-lein-sut-i-gofrestru.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch cofrestru neu gwblhau eich cais am grant, cysylltwch â'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar **0300 062 5004**

Mae mwy o fanylion ynglŷn â Thaliadau Gwledig Cymru Ar-lein ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (https://llyw.cymru/grantiau-a-thaliadau-gwledig).

[4] Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd Llywodraeth Cymru yn gwirio na dderbynnir mwy nag un cais am yr un cwch.

# Atodiad B – Cwmnïau mewn Trafferthion

Ystyrir menter mewn trafferthion os yw'n bodloni unrhyw un o'r meini prawf canlynol ar 31 Rhagfyr 2019[7]:

1. Unigolion neu gwmnïau sydd wedi ymrwymo i achosion ansolfedd ar y cyd;

2. Cwmnïau cyfyngedig sydd wedi cronni colledion sy'n fwy na hanner eu cyfalaf cyfranddaliadau yn eu cyfrifon blynyddol diwethaf (nid yw hyn yn berthnasol i fusnesau bach a chanolig sy'n llai na 3 mlwydd oed);

3. Partneriaethau, partneriaethau cyfyngedig neu gwmnïau atebolrwydd diderfyn sydd wedi cronni colledion sy'n fwy na hanner eu cyfalaf yn eu cyfrifon blynyddol diweddaraf (nid yw hyn yn berthnasol i BBaChau sy'n llai na 3 blwydd oed);

4. Pan fo'r ymgymeriad wedi cael cymorth achub ac nad yw eto wedi ad-dalu'r benthyciad nac wedi terfynu'r warant, neu wedi cael cymorth ailstrwythuro ac yn dal i fod yn destun cynllun ailstrwythuro;

5. Cwmni nad yw'n BBaCh lle mae: i) eich cymhareb dyled llyfrau i ecwiti wedi bod yn fwy na 7.5 ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd gyfrifyddu ddiwethaf: a ii) bod eich cymhareb cwmpas llog EBITDA wedi bod yn is na 1.0.

